**Ymateb yr Heddlu i Adroddiad SCHTh a'r argymhellion o'i harchwiliad dwys i Stelcio ac aflonyddu (Mehefin 2023).**

Dymuna Heddlu Dyfed-Powys ddiolch i SCHTh am ymgymryd ag adolygiad thematig o Stelcio ac Aflonyddu. Mae'r heddlu'n cydnabod cynnwys yr adroddiad, yn arbennig adborth dioddefwyr.

Mae'n dda gweld bod yr adroddiad yn cydnabod y gwaith sy'n mynd rhagddo o fewn yr heddlu, ac wrth symud ymlaen, bydd datblygu'r argymhellion yn cael ei gynnwys yng nghynlluniau'r heddlu, wrth inni anelu i wella ein hymateb.

**Ymateb Heddlu Dyfed-Powys i Stelcio ac Aflonyddu:**

Mae'r ymateb strategol i Stelcio ac Aflonyddu'n cael ei arwain gan y Prif Gwnstabl Cynorthwyol, gyda chymorth y Ditectif Uwch-arolygydd dros Ddiogelu Pobl sy'n Agored i Niwed.

Darperir yr ymateb gweithredol gan ystafell reoli'r heddlu a swyddogion ymateb. Unedau rheoli troseddwyr ac ymchwilio lleol sy'n gyfrifol am reoli ymchwiliadau a drwgdybiedigion, gyda chymorth swyddogaethau canoledig.

Mae rheolaeth tymor hirach stelcio'n parhau gyda'r swyddog yn yr achos a'i oruchwylydd heblaw bod y perygl yn cael ei drosglwyddo i drefniadau amlasiantaeth er diogelu'r cyhoedd neu reoli troseddwyr yn integredig. Mae'r heddlu'n defnyddio gorchmynion sifil er mwyn rheoli troseddwyr yn y gymuned.

Dros y 12 mis diwethaf, mae'r Cydlynydd Troseddwyr Cam-drin Domestig a Stelcio wedi gweithio gyda swyddogion, staff a sefydliadau allanol er mwyn gwella gwybodaeth am y rhaglen troseddwyr. Yn ystod y 15 mis diwethaf, yr ydym wedi gweld cynnydd yn nifer y troseddwyr sy'n ymuno â'r rhaglen.


Prif Gwnstabl Chief Constable Dr Richard Lewis
Pencadlys Heddlu, Blwch SB 99, Llangynnwr, Caerfyrddin. SA31 2PF
Police Headquarters, PO BOX 99, Llangunnor, Carmarthen. SA31 2PF

Mae Heddlu Dyfed-Powys yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Byddwn ni'n sicrhau ein bod ni'n ymateb yn eich dewis iaith ac ni fydd oedi mewn perthynas ag unrhyw ohebiaeth drwy'r Gymraeg.
Dyfed-Powys Police welcomes correspondence in Welsh and in English, and we will ensure that we respond to any correspondence through the language of your choice. Corresponding via the medium of Welsh will not endure any delay.

Ymateb i'r Argymhellion

Roedd cyfanswm o 18 argymhelliad yn yr adroddiad, ac ry'n ni wedi darparu ymateb byr i bob un.

DARPARIAETH ADNODDAU:

1. **Dylai'r swydd Cydlynydd Troseddwyr Cam-drin Domestig a Stelcio nodi cyllid cynaliadwy tymor hirach.**

   Yn ystod y flwyddyn ariannol, bydd yr heddlu'n mynd ati i geisio cyllid tymor hirach ar gyfer y swydd cydlynydd troseddwyr cam-drin domestig a stelcio.

2. **Dylid blaenoriaethu recriwtio i'r swydd Swyddog Gorchmynion Sifil. Un o'r pethau y dylai'r swydd ganolbwyntio arno yn gyntaf yw datblygu proses ar gyfer monitro troseddwyr sy'n ddarostyngedig i'r holl orchmynion sifil.**

   Mae'r swydd hon wedi'i chaniatáu gan yr heddlu a bydd yn dwyn ffrwyth yn ystod yr hydref yn 2023.

3. **Dylid annog swyddogion yn rhagweithiol i geisio cymorth a chyngor arbenigol gan yr adran Gwasanaethau Cyfreithiol, Hyrwyddwyr Stelcio a'r Uned Rheoli Troseddwyr wth ymdrin ag achosion stelcio ac aflonyddu.**

   Unwaith y bydd y swyddog gorchmynion sifil wedi cychwyn ei swydd, bydd yn cefnogi swyddogion ac yn medru cydlynu cyswllt â'r arbenigwyr hynny sy'n medru rhoi mwy o wybodaeth am y gorchmynion amrywiol a'r broses ymgeisio.

   Bydd Ditectif Ringylliaid sy'n rheoli'r broses trafodaeth ddyddiol yn parhau i annog swyddogion o gwmpas mesurau sifil ac yn cyfeirio staff at y rhai sydd â gwybodaeth arbenigol.

HYFFORDDIANT:

4. **Dylai'r Heddlu adolygu effaith y rhaglen hyfforddi Hyrwyddwyr Stelcio sydd wedi'i hadnewyddu ymhen 12 mis ar ôl ei gweithredu. Dylai'r adolygiad hwn gynnwys ystyriaeth o adborth dioddefwyr, canlyniadau a data aildroseddu.**

   Bydd yr hyfforddwr Bregusrwydd yn cydlynu rhaglen datblygiad proffesiynol parhaus er mwyn sicrhau bod gan hyrwyddwyr wybodaeth fanylach am gam-drin domestig, stelcio ac aflonyddu. Bydd yr hyfforddiant yn digwydd yn rheolaidd ac yn cynnwys adborth gan ddioddefwyr. Yr ydym yn anelu i gyflwyno sesiynau hyfforddi bob chwe mis.

5. **Dylai GLlThEF hefyd ystyried hyfforddiant annibynnol ar gyfer gwella dealltwriaeth a gwybodaeth barnwyr am arwyddocâd torri gorchmynion sifil.**

   Mae'r argymhelliad hwn ar gyfer GLlThEF.

6. **Dylai'r Heddlu geisio adborth penodol gan swyddogion ar fewnbynnau gan ddioddefwyr a goroeswyr mewn unrhyw arolygon hyfforddi yn y dyfodol.**

   Bydd hyfforddiant yn y dyfodol o ran y Ganolfan Fregusrwydd yn cipio adborth gan staff, a fydd yn cael ei ddefnyddio i hysbysu hyfforddiant yn y dyfodol. Bydd y swyddog hyfforddi newydd yn medru rheoli a monitro hyn gan ddefnyddio "Ffurflenni" ar *Microsoft Teams*.

7. **Dylai'r Heddlu ystyried sut y gallai dysgu o adroddiad Ymgyrch Soteria Bluestone fod yn berthnasol ar gyfer plismona stelcio ac aflonyddu.**

   Mae tîm Ymgyrch Soteria wrthi'n adolygu'r model gweithredu sydd newydd ei gyhoeddi, a byddant yn rhannu'r dysgu perthnasol ar draws meysydd eraill, gan gynnwys stelcio ac aflonyddu, cam-drin domestig, a cham-drin plant yn rhywiol. Bydd un o'r elfennau dysgu allweddol yn canolbwyntio ar ddrwgdybiedigion a chefnogi dioddefwyr. Bydd ailstrwythuro'r ymateb strategol i Fregusrwydd yn cefnogi hyn gan fod y Ditectif Brif Arolygydd a'r Ditectif Arolygydd sy'n gyfrifol am Droseddau Rhywiol Difrifol a Thrais nawr yn arwain ar Gam-drin Domestig, Stelcio ac Aflonyddu hefyd.

**<u>DATA:</u>**

8. **Os nad ydynt eisoes yn gwneud, dylai'r Heddlu nodi'r dulliau atal ac ymyrryd a ddefnyddir yn erbyn troseddwyr mynych o fewn eu hadroddiadau proffil trosedd yn y dyfodol.**

   Ceir gwybodaeth a chanllawiau ar gyfer rheoli troseddwyr ar fewnrwyd yr heddlu, fodd bynnag, mae gwahaniaeth yn y ffordd y mae swyddogion/staff yn cofnodi'r wybodaeth hon.

   Mae angen gwella hyn, a byddwn yn gweithio tuag at hyn yn ystod y 12 mis nesaf. Bydd cynnydd yn erbyn yr argymhelliad hwn yn cael ei fonitro trwy ein strwythur lywodraethu, a bydd y camau gweithredu'n cael eu rheoli trwy gynllun gweithredu'r heddlu.

9. **Dylai'r Heddlu ehangu ei Ddangosfyrddau Perfformiad er mwyn caniatáu craffu manylach o'r cais ac achosion o dorri gorchmynion sifil.**

   Bydd y tîm strategol yn gweithio'n agos â'r tîm perfformiad er mwyn sicrhau bod y wybodaeth hon yn cael ei chipio o fewn y dangosfwrdd. Yn ogystal, bydd y Swyddog Gorchmynion Sifil yn cynnal adolygiadau dyddiol o systemau'r heddlu er mwyn monitro digwyddiadau a sicrhau bod ymateb cadarn i unrhyw achos o dorri gorchymyn sifil.

10 **Dylai Heddlu Dyfed-Powys fod yn sicr y gall swyddogion ymchwilio gael mynediad hawdd i gofnod llawn o hanes troseddwr o dorri amodau mor gynnar â phosibl yn ystod ymchwiliad.**

   Bydd unrhyw achos o dorri amodau sy'n cael ei adrodd wrth Heddlu Dyfed-Powys yn arwain at greu cofnod STORM, a, lle bo angen, cofnodir trosedd neu ddigwyddiad

dalfa. Bydd y rhain yn cael eu cipio ar system rheoli cofnodion yr heddlu (NICHE). Bydd y troseddau a'r digwyddiadau dalfa'n cael eu nodi yn y dyfodol drwy chwilio am yr unigolyn ar y system rheoli cofnodion. Fodd bynnag, ni fydd y cofnod yn dal gwybodaeth os na fu ymateb gan yr heddlu. Bydd swyddogion heddlu'n cael eu cyfeirio i wirio NICHE, STORM. Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu a Chronfa Ddata Genedlaethol yr Heddlu er mwyn sicrhau bod ganddynt wybodaeth gefndir y troseddwr.

Yn y dyfodol, bydd yr heddlu'n cipio manylion am achosion o dorri amodau lle nad oes angen creu trosedd mewn adran ar y goflen person. Bydd hyn yn sicrhau bod unrhyw achos o dorri gorchmynion ac unrhyw gynllun rheoli risg yn hygyrch i swyddogion a staff perthnasol. Nid yw pecyn rheoli troseddwyr y System Rheoli Cofnodion wedi'i weithredu eto, ond bydd yn cael ei gynnwys yn ystod ail gam y cynllun cyflenwi. Bydd hyn yn rhoi gwybodaeth i swyddogion a staff am achosion o dorri amodau nad ydynt yn gysylltiedig â digwyddiad neu neges STORM.

**YMYRIADAU TROSEDDWYR:**

**11 Dylai'r Heddlu flaenoriaethu gwaith ar gyfer ymgorffori'r Arf Blaenoriaethu Troseddwyr o fewn y system Niche er mwyn peidio â cholli gafael ar y prosiect hollbwysig hwn.**

Gofynnwyd i Dîm Perfformiad yr Heddlu ailadeiladu'r Arf Blaenoriaethu Troseddwyr. Nid oedd modd i'r tîm gwblhau'r gwaith oherwydd y galw ychwanegol ar ôl gweithredu NICHE. Mae'r cais yn y ciw gwaith, sy'n cael ei flaenoriaethu yn seiliedig ar risg. Mae'r cynnydd yn cael ei fonitro trwy strwythur llywodraethu'r heddlu.

**11 Dylai Heddlu Dyfed-Powys geisio sicrwydd bod swyddogion ymchwilio'n ystyried defnyddio amrediad o ymyriadau, gan gynnwys gorchmynion sifil, fel rhan o'u strategaethau rheoli troseddwyr, ac mor gynnar â phosibl yn ystod ymchwiliad.**

Mae'r Pecyn Offer Trais yn Erbyn Menywod a Merched yn darparu amrediad eang o ymyriadau ar gyfer troseddau, gan gynnwys stelcio ac aflonyddu. Mae hwn ar gael trwy fewnrwyd yr heddlu, ac mae'n cael ei gynnwys yn y pecyn dysgu a roddir i oruchwylwyr pan maen nhw'n mynd i'w diwrnod ymgyfarwyddo â'r Uned Asesu Perygl Eilaidd/Uned Rheoli Troseddwyr.

Bydd y fframwaith archwilio newydd yn ceisio cynnwys proses a fydd yn gwirio a phrofi ymyriadau sy'n cael eu hystyried lle y bo angen.

**12 Dylai'r Heddlu sicrhau bod pob ystyriaeth o asesiadau (megis Dwysáu Perygl Dynladdiad) ac unrhyw ymyriadau (megis gorchmynion sifil a'r Rhaglen Adlewyrchu ar Berthnasau), waeth pa un ai a yw wedi'i ddatblygu ai peidio, yn cael ei nodi gan swyddogion o fewn y System Rheoli Troseddau. Dylai hyn gynnwys pryd y mae achosion yn cael eu trafod mewn Cyfarfodydd Rheoli Dyddiol.**

Arf yw'r Amserlen Dynladdiad/dwysáu Perygl a ddefnyddir gan aseswyr perygl eilaidd wrth asesu ffactorau dwysáu a nodi sbardunau wrth ystyried gweithredoedd troseddwyr stelcio ac aflonyddu. Mae hyn yn cynorthwyo staff i nodi achosion lle

mae perygl cynyddol i'r Dioddefydd ac mae'n broses sy'n seiliedig ar dystiolaeth a ddatblygwyd gan Brifysgol Caerloyw.

Er mwyn ymgorffori'r hyfforddiant hwn ledled y sefydliad, mae nifer o sesiynau hyfforddi wedi cyflwyno ar draws yr heddlu, gan ddefnyddio cyllid allanol. Mae tua 300 o swyddogion ac aelodau staff wedi derbyn yr hyfforddiant hyd yn hyn, gan gynnwys ymchwilwyr, swyddogion cam-drin domestig a swyddogion ymateb. Fodd bynnag, nid yw'r hyfforddiant yn orfodol i bawb, felly mae hyn yn rhywbeth yr ydym yn edrych arno yn ystod y 12 mis nesaf.

Cofnodir asesiadau Cam-drin Domestig, Stelcio ac Aflonyddu ac Asesiadau Sgrinio ar gyfer Stelcio ac Aflonyddu ar NICHE ac fe'u cysylltir â'r digwyddiad a chofnod yr unigolyn. Prosesau safonol yw'r rhain a ddefnyddir yn eang ar draws plismona i asesu'r perygl posibl a gyflwynir i ddioddefwyr cam-drin domestig a stelcio.

Gellir ond cyflwyno'r rhaglen Adlewyrchu ar Berthnasau i ddrwgdybiedigion sydd â'u hymchwiliadau wedi'u cwblhau heb unrhyw gamau gweithredu pellach gan yr heddlu. Bydd y manylion hyn yn cael eu cofnodi fel mater o drefn ar y system rheoli cofnodion.

Bydd y Cydlynydd Troseddwyr Cam-drin Domestig a Stelcio'n rheoli cydlynu a phresenoldeb.

Mewn perthynas â'r system rheoli troseddau, mae'r ymateb yn unol â'r sylwadau ar gyfer argymhelliad 8.

**MONITRO TROSEDDWYR:**

**13 Dylai'r Heddlu ystyried gweithredu prosesau ar gyfer rheoli gorchmynion sifil, fel yr argymhellwyd gan arweinydd Trais yn Erbyn Menywod a Merched yr Heddlu yn yr Adolygiad o Gam-drin Domestig. Dylai hyn gynnwys dilyn a monitro dwysach unwaith y mae ymyriadau megis y Rhaglen Adlewyrchu ar Berthnasau wedi'u cwblhau.**

Cytunwyd ar y swydd ychwanegol drwy strwythurau llywodraethu'r heddlu. Bydd y swydd yn cael ei hysbysebu yn ystod yr hydref yn 2023.

**14 Dylai'r Swyddog Gorchmynion Sifil newydd gefnogi adolygiadau o orchmynion sifil. Dylai adolygiadau o'r fath gynnwys barn y dioddefydd.**

Ceisir adborth gan ddioddefwyr fel rhan o'r fforwm ymgysylltu. Byddwn ni'n ceisio cymorth gan SCHTh i gynnwys hyn fel thema ar gyfer y digwyddiad nesaf.

**DIODDEFWYR:**

**15 Dylid annog swyddogion i ailymweld â chytundebau cyswllt gyda dioddefwyr yn ystod camau amrywiol o'r ymchwiliad.**

Mae cytundebau cyswllt â dioddefwyr yn faes yr ydym yn gweithio arno fel heddlu. Mae gwaith i'w wneud i ddeall pa un ai a yw swyddogion yn deall yr angen i adolygu'r cytundeb â'r dioddefydd yn rheolaidd yn ystod y cyfnod ymchwilio.

**16 Dylai unrhyw ymgysylltu yn y dyfodol â dioddefwyr ystyried pa un ai a roddwyd gwybodaeth i ddioddefwyr yn unol â'r Cytundeb Cyswllt â'r Dioddefydd a wnaed gyda'i swyddog ymchwilio.**

Mae'r arolwg bodlonrwydd yn rhoi adborth am y cytundeb cyswllt â'r dioddefydd. Mae'r pecyn perfformiad yn cynnwys adborth y dioddefydd, sydd ar gael i reolwyr lleol. Yn y dyfodol, defnyddir y wybodaeth hon i wella'r ffordd yr ydym yn cyflenwi'r cod ymarfer ar gyfer dioddefwyr.

**17 Dylid rhoi ystyriaeth bellach i'r cymorth a roddir i ddioddefwyr stelcio yn y broses ail-dendro sydd ar fin cael ei chynnal o ran Gwasanaethau Dioddefwyr a Thystion.**

Ni ddylid gadael dioddefwyr a thystion ar ôl yn y prosesau ail-dendro, a bydd yr Heddlu'n gweithio gyda SCHTh er mwyn helpu i lunio'r gwasanaethau.

----------------------

I gloi, hoffwn gymryd y cyfle hwn i dynnu sylw at waith arall sy'n mynd rhagddo o fewn yr heddlu.

- Yn ddiweddar, cyflwynodd y Llinell Gymorth Seiber sesiwn cinio a dysgu am y dulliau y mae troseddwyr yn defnyddio i olrhain eu dioddefwyr. Rhoddasant gymorth cof i swyddogion, sy'n annog chwilfrydedd proffesiynol ac yn cymell swyddogion i ystyried pa un ai a yw'r troseddu wedi cynnwys y defnydd o feddalwedd ysbïo a thechnegau monitro eraill. Er enghraifft, defnyddio ffôn plentyn i olrhain y rhiant.

- Nodwyd sawl hyrwyddwr stelcio newydd. Cyfeirir atynt fel hyrwyddwyr cam-drin domestig a stelcio, a byddant yn derbyn hyfforddiant gyda'r Swyddog Cam-drin Domestig, yr Uned Asesu Perygl Eilaidd a'r Rhithuned Ymateb i Gam-drin Domestig. Cyhoeddir eu manylion ar DPPi2 fel bod gan swyddogion eraill bwynt cyswllt sengl sy'n medru rhoi cyngor ac arweiniad.

- Mae sesiwn gyda'r enwog Athro Jane Monckton-Smith wedi'i gipio ar ffilm, a bydd yn cael ei ddefnyddio fel rhan o hyfforddiant stelcio'r heddlu yn y dyfodol. Mae cyfarfod wedi'i drefnu gyda'r Athro Monckton-Smith a'n cydweithwyr yn y maes Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ar 27 Gorffennaf er mwyn cwmpasu cyfleoedd hyfforddi pellach, a gwirio a phrofi ymhle yr ydym arni o ran gweithredu ei gwaith ymchwil a'r arfau sydd ar gael ar gyfer cynorthwyo ag asesu perygl stelcio.

- Mae profiadau goroeswyr wedi'u lanlwytho i DPPi2 i'w defnyddio mewn hyfforddiant. Mae pecyn Stelcio ar *College Learn*, ond nid yw'n orfodol ar gyfer swyddogion eto.